

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWDYD A'R NOS LUN 27AIN O EBRILL 2020 TRWY SKYPE AM 7.30 O'R GLOCH.

1. PRESENNOL: Y Cynghorwyr Elfed Williams (Cadeirydd), Bari Evans, Arwel Davies, Cynghorydd Sir Ddinbych Joseph Welch a'r Clerc.

2. YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr, Iwan Jones, Ceri Davies, Hywel Davies, Stanley Williams, Philip Williams, Geraint Jones a Falmai Evans.

3. DDATGAN DIDDORDEB: Dim yn codi.

4. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 30ain o Fawrth 2020 gan y Cynghorwyr yn bresennol.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Derbyniwyd llythyrau o ddiolch am gymorth arian y Cyngor oddi wrth y mudiadau canlynol:-

1. Capel Saron am dorri glaswellt Fynwent Capel Saron.

2. Gofal Dydd a Helpu'n Gilydd, Capel Annibynwyr Waengoleogoedd.

B. Mae Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych wedi cychwyn trwsio'r ffyrdd a oedd angen sylw a chodwyd yng nghyfarfodydd blaenorol y Cyngor.

C. Mae Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych wedi gwrthod y cais cynllunio canlynol:-  
23/2020/0133 - Datblygu 0.07ha o dir drwy godi annedd ar wahân (cais amlinellol yn cynnwys mynediad) yn St. James's Church, Prion.

6. DIWEDDARAF BAND EANG YN Y GYMUNED.

Dim datblygiadau ers y cyfarfod blaenorol.

7. DIWEDDARAF MATERION COFID-19 YN Y GYMUNED.

Derbyniwyd adroddiad y Cadeirydd:-

A: Nid oedd Siop-y-Pentre, Llanrhaeadr angen cymorth ariannol y Cyngor.

B. Nid oedd yna alw am ddsbarthu negeseuon gwirfoddol.

C. Mae Barry Roberts, Dyn Llefrith, wedi derbyn dros gant o gwsmeriaid newydd.

8. CYLLID.

A. Datganiad Banc £10,583.18.

B. Rhoddwyd awdurdod i dalu BHIB Ltd am bolisi yswiriant blynyddol y Cyngor £493.61.

9. CEISIADAU CYNLLUNIO.

A. Cais Cynllunio: 25/2020/0257 - Amrywio amodau 32 a 37 a chaniatâd cynllunio 25/2007/0565/WF ar gyfer ddatblygu fferm wynt Brenig, gofyn am eglurder wrth ddefnyddio'r gair "annedd" yng nghyd-destun asesu effeithiau yn sgil cysgodion symudol ac allyriadau sŵn o dyrbinau, er mwyn adlewyrchu statws cyfreithiol anheddau sy'n gyfreithion mewn bodolaeth neu sydd cael caniatâd cynllunio cyn dyddiad y caniatâd ar gyfer yr amrywiadau a geisir drwy hyn ar dir i'r dwyrain o Llyn Brenig, Nantglyn - penderfynwyd gwrthwynebu'r cais cynllunio oherwydd bod y cais cynllunio yn amharu ar dai cyfagos oherwydd sŵn a materion golau.

B. Cais Cynllunio: 23/2020/0225 - Codi estyniad i garej ddomestig yn Tyn-y-Ffynnon, Llanrhaeadr, Dinbych – dim gwrthwynebiad.

C. Cais Cynllunio: 23/2020/0067 - Gwaith peirianyddol arfaethedig i ffurfio llyn pysgota, llwybrau mewnol a maes parcio. Newid defnydd o floc amwynder i adeilad dderbynfa a gwaith cysylltiedig yn Gaer Mynydd Caravan Park Caer Mynydd Farm Saron - penderfynwyd gwrthwynebu'r cais oferwed:-

1. Nid mae'r adeilad bloc amwynder wedi cael ei ddymchwel fel amod yn gais cynllunio yn y gorffennol gan Gyngor Sir Ddinbych.
2. Nid Adam Pover yw perchennog yr eiddo.
3. Mi fydd y datblygiad yn aflonyddwch i'r bobl sydd yn byw yn gyfagos i'r datblygiad.

#### 10. GOHEBIAETH.

Derbyniwyd manylion oddi wrth y Cadeirydd, panel dehongli arfaethedig sy'n cael ei ddarparu gan Gymdeithas Cadwraeth Llanrhaeadr fydd yn mynd yn lle'r hen banel sydd wrth y ciosg ffon yn Llanrhaeadr. Chadarnhawyd yr aelodau manylion y panel.

#### 11. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Chadarnhaodd Cyngorydd Sir Ddinbych, Joseph Welch, nad oedd yna gyfarfodydd yn bodoli yn Gyngor Sir Ddinbych ar hyn o bryd a hefyd fod rhai gwasanaethau'r Cyngor Sir wedi eu oherwydd rheolau Cofid-19 sydd yn bodoli ar hyn o bryd.

#### 12. MATERION BRYD O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

A. Derbyniwyd gwybodaeth wyrech fod ddatblygwr stad newydd Pant-y-Celyn eisiau cynyddu'r stad o 15 o dai i 17. Cytunodd Cyngorydd Sir Ddinbych, Joseph Welch, i wneud ymholiadau gyda'r Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych.

B. Derbyniwyd gwybodaeth fod y perchennog y datblygiad presennol yn y cyn Eglwys Prion yn torri'r rheolau Cofid-19. Penderfynwyd y Clerc tynnu sylw Cyngor Sir Ddinbych at y digwyddiadau.

C. Ar ôl trafodaeth, penderfynwyd y Clerc gwneud ymholiadau pwy sydd a'r berchnogaeth darn o dir tu ôl i'r Eglwys a'r Tŷ'r Eglwys ym Mhrion.

D. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw Cyngor Sir Ddinbych at y materion ffyrdd canlynol:-

1. Ffordd heibio Rhiwlas Isa' at Meifod ym Mhrion.
2. Ffordd rhwng Rhewl Valley a Lon ym Mhrion.

13. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Fawrth 26ain o Fai 2020 trwy Skype am 7.30 o'r gloch.